Siarad Gyda Fi
Talk With Me

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Siarad Gyda Fi
# Talk With Me



gov.wales/talkwithme
llyw.cymru/siaraddafi

@parentsinwales
@parenting.wales

Cynulleidfa: Pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector plant gyda ffocws ar iaith, lleferydd a chyfathrebu, gan gynnwys:

Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Dechrau'n Deg, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llwybr Iaith Gynnar Cymru, Grŵp Gorchwyl a Gorffen DLD, Grŵp Rhagoriaeth Glinigol Amlieithrwydd, Fforwm Cynghori Therapi Lleferydd ac Iaith Cymru (WSLTAF), Bydwreigiaeth, Fforwm Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan, Nyrsys Iechyd Ysgolion, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arweinwyr Seicoleg / Iechyd Meddwl Babanod, Arweinwyr Dechrau'n Deg – Arweinwyr Iechyd / Arweinwyr Addysg, Arweinwyr Teuluoedd yn Gyntaf – Arweinwyr Iechyd / Arweinwyr Addysg, Gweithwyr Proffesiynol yn y Cyfnod Sylfaen o Awdurdodau Lleol a Chonsortia Rhanbarthol, Arweinydd Trawsnewid ADY, Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar, Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, y Trydydd Sector – Plant yng Nghymru, Barnardo's, Achub y Plant, Dechrau Da, Mudiad Meithrin, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cwlwm, PACEY, Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, Y Rhwydwaith Maethu, Cynghorwyr y Grant Datblygu Disgyblion a Chonsortia Addysg Rhanbarthol.

Trosolwg: Mae'r ddogfen hon yn trafod ymgyrch genedlaethol Llywodraeth Cymru i hybu datblygiad mewn Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, wedi'i hanelu yn bennaf at blant 0-4 oed ond mae hefyd yn berthnasol i'r ystod oedran 0-25 oed fel y cwmpesir yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Camau gweithredu gofynnol: Mae'r ddogfen hon yn nodi rhaglen waith a threfniadau Llywodraeth Cymru i hybu a chefnogi datblygiad Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu ledled Cymru.

Os oes gennych ymholiadau pellach am y ddogfen hon, cysylltwch â:

Yr Is-adran Plant a Theuluoedd,
Y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Threchu Tlodi,
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 253344
E-bost: FlyingStart2@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol: Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru: **https://llyw.cymru/siarad-gyda-fi-cynllun-cyflawni-ar-gyfer-lleferydd-iaith-chyfathrebu**

Cydnabyddiaeth: Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am gael defnyddio'i luniau 'Siarad gyda fi' ar glawr y ddogfen hon

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan y Gweinidog** | **4** |
| **Trosolwg: Siarad gyda Fi** | **5** |
| **Cyflwyniad** | **8** |
| **Y Cyd-destun Strategol** | **11** |
| **Covid 19** | **14** |
| **Y ffordd ymlaen yng Nghymru** | **15** |
| **Y Broses Ymgynghori** | **16** |
| **Y Cynllun Cyflawni** | **17** |
| Cynllun cyflawni – Amcan 1 | 20 |
| Cynllun cyflawni – Amcan 2 | 22 |
| Cynllun cyflawni – Amcan 3 | 23 |
| Cynllun cyflawni – Amcan 4 | 24 |
| Cynllun cyflawni – Amcan 5 | 26 |
| **Casgliad a'r Camau Nesaf** | **29** |
| **Rhestr Termau** | **30** |

# Rhagair gan y Gweinidog

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw bod pob plentyn o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cyrraedd ei lawn botensial.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod datblygiad plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys caffael sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu a llafaredd sy'n sail i allu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu a datrys problemau. Mae cysylltiad agos iawn rhwng datblygiad gwybyddol cadarnhaol a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a'i allu i ymuno â'r gweithlu.

Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar unrhyw blentyn, ni waeth ble mae'n byw na beth yw ei amgylchiadau teuluol, i fynd i'r afael ag oedi neu anawsterau o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu. Ein nod yw sicrhau y gall plant ledled Cymru gael gafael ar gymorth o safon uchel, boed yn gymorth cyffredinol, yn gymorth ar gyfer grwpiau, yn gymorth wedi'i deilwra neu'n gymorth arbenigol[1], yn y blynyddoedd cynnar – os oes angen – i feithrin eu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu. Gan gofio bod Cymru yn wlad ddwyieithog, rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn rhoi'r dechrau gorau posibl i bob plentyn ddatblygu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu Cymraeg yn ogystal â Saesneg, yn unol â'r weledigaeth yn Cymraeg 2050.

Mae canlyniadau peidio â chefnogi sgiliau iaith cynnar plant, â pheidio â nodi anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu hirdymor neu barhaus, yn ddigon niweidiol i'w gwneud yn angenrheidiol rhoi ymateb cyffredin, trawsbynciol gydag arweinyddiaeth gadarn.

Mae nifer o ffactorau yn gwneud iaith, lleferydd a chyfathrebu yn faes polisi proffil uchel i Lywodraeth Cymru ac rydym yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r sgìl bywyd hollbwysig hwn.

Un cam mawr ymlaen yw cyhoeddi Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu sy'n ceisio hyrwyddo gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu. Y cynllun cyflawni trawsbynciol hwn ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yw'r cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig.


Rydym wedi gweithio'n adeiladol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac maent wedi ein helpu i nodi camau gweithredu er mwyn cefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu ein plant yn well. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gymorth amhrisiadwy Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Therapyddion Iaith a Lleferydd.

Mae'r cynllun cyflawni trawslywodraethol hwn yn cynnwys amrywiaeth eang o feysydd polisi o faes Cyflogadwyedd a Sgiliau i Iechyd, a fydd yn arwain at ymgysylltu â theuluoedd mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, ac sy'n adeiladu ar y polisïau presennol a'r hyn sy'n gweithio.


Rydym yn falch o gymeradwyo'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni hwn y bydd angen eu cymryd ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion heriol sy'n bodoli a sbarduno gwelliannau.

Mae cydweithio agos ar lefel Gweinidogion yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. Mae Gweinidogion a swyddogion wedi cydweithio ar y cynllun hwn, a byddwn yn sicrhau bod hynny'n parhau drwy'r trefniadau i'w roi ar waith.

Mae'n rhaid i blant gyflawni eu llawn botensial. Ni ddylem dderbyn dim byd llai na hynny.

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol


**Ken Skates AS**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru




**Julie Morgan AS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol




**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

**Kirsty Williams AS**
Y Gweinidog Addysg




**Jane Hutt AS**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

1 Gweler y Rhestr Termau am ddiffiniadau

# Trosolwg: Siarad gyda fi

**Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu: Cynllun Cyflawni 2020 i 2022**

**Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu a sicrhau y caiff ymyriadau eu cyflawni ar gyfer pawb lle y bo eu hangen.**

Mae sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn ffactor allweddol o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu yn hanfodol ar gyfer canlyniadau iechyd, llesiant, addysg a chyflogaeth cadarnhaol. Gall hyrwyddo iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar leihau effaith anfantais gymdeithasol gydol oes[2].

**"Effective oral language skills are the building blocks on which subsequent literacy and numeracy development is based. Without solid foundations in language and communication skills, children run the risk of school failure, low self-esteem and poor social skills. Yet up to 80% of children in some areas of the UK are starting school without these vital skills"**[3]

Mae'r gallu i ddeall a defnyddio iaith yn sgìl bywyd sylfaenol sy'n unigryw i bobl ac yn un sy'n rhannol annatod sy'n cael ei ddysgu'n rhannol[4]. Mae cyfathrebu yn broses gymhleth sy'n cynnwys nifer o sgiliau: Mae iaith oddefol (dealltwriaeth) fel arfer yn datblygu cyn iaith fynegiannol (iaith lafar neu siarad); eglurder lleferydd yw'r ffordd y dywedir geiriau a chyfathrebu yw'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'n gilydd.[5]

Mae gan fwy na 10% o blant a phobl ifanc yn y DU anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu hirdymor sy'n creu rhwystrau rhag cyfathrebu neu ddysgu mewn bywyd pob dydd[6].

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant sy'n byw mewn tlodi yn dioddef yn anghymesur o oedi wrth ddatblygu iaith[7]. Hynny yw, y plant hynny y mae eu sgiliau iaith yn datblygu'n llawer arafach na sgiliau plant eraill o'r un oed nad oes ganddynt anhwylder penodol. Mae sgiliau iaith yn ffactor allweddol yn y cylchoedd rhwng y cenedlaethau a all wneud i dlodi barhau am byth, wrth i sgiliau cyfathrebu gwael gael eu trosglwyddo o'r rhiant i'r plentyn[8].



2 Beard, 2018
3 ICAN, 2009
4 Bercow, 2018
5 Beard, 2018
6 Norbury *et al*, 2016
7 Law *et al,* 2013
8 Hart a Risley, 2003

# Ffeithiau allweddol

- Gall dros **50%** o blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ddechrau ysgol â sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu cyfyngedig[9].
- Gwnaeth **un o bob pedwar** plentyn a gafodd anawsterau iaith yn 5 oed fethu â chyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn Saesneg ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, o gymharu ag un o bob 25 o blant a oedd yn meddu ar sgiliau iaith da yn 5 oed[10].
- Mae ymchwilwyr wedi canfod bod plant a oedd yn meddu ar sgiliau dieiriau normal ond geirfa wael yn 5 oed unwaith a hanner yn fwy tebygol o fod yn ddarllenwyr gwael neu o gael problemau iechyd meddwl yn 34 oed a mwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na phlant yr oedd eu hiaith yn datblygu'n normal yn 5 oed[11].
- Geirfa yn 5 oed yw'r ffordd orau o ragweld (o ystod o fesurau yn 5 a 10 oed) a allai plant a brofodd amddifadedd cymdeithasol yn ystod plentyndod fynd yn groes i'r duedd ac osgoi tlodi yn ddiweddarach mewn bywyd fel oedolion[12].

9 Locke *et al*, 2002
10 Achub y Plant, 2016
11 Law *et al*, 2010
12 Blanden, 2006

# SGILIAU LLEFERYDD, IAITH A CHYFATHREBU – PAM EU BOD NHW'N BWYSIG?

COLEG BRENHINOL THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD

## PARODRWYDD I'R YSGOL

50%

GALL 50% O BLANT MEWN ARDALOEDD CYMDEITHASOL DDIFREINTIEDIG DDECHRAU'R YSGOL GYDA SGILIAU LLEFERYDD, IAITH A CHYFATHREBU GWAEL

LOCKE A, GINSBORG J, PEERS I. (2002) DEVELOPMENT AND DISADVANTAGE: IMPLICATIONS FOR THE EARLY YEARS AND BEYOND, INTERNATIONAL JOURNAL OF LANGUAGE AND COMMUNICATION DISORDERS, 37(1), PP. 3-15.

## PARODRWYDD I'R YSGOL

NI WNAETH 1 YM MHOB 4 PLENTYN OEDD YN CAEL ANHAWSTER GYDAG IAITH GYRRAEDD Y SAFON DDISGWYLIEDIG YN SAESNEG AR DDIWEDD YR YSGOL GYNRADD O GYMHARU GYDA UN MEWN 25 O BLANT OEDD Â SGILIAU IAITH DA YN BUMP OED

ACHUB Y PLANT (2016) EARLY LANGUAGE DEVELOPMENT AND CHILDREN'S PRIMARY SCHOOL ATTAINMENT IN ENGLISH AND MATHS: NEW RESEARCH FINDINGS, LLUNDAIN: ACHUB Y PLANT.

## IECHYD MEDDWL

81%

MAE GAN 81% O BLANT GYDAG ANHWYLDERAU EMOSIYNOL AC YMDDYGIADOL DDIFFYGION IAITH SYLWEDDOL

HOLLO ET AL (2014) UNIDENTIFIED LANGUAGE DEFICITS IN CHILDREN WITH EMOTIONAL AND BEHAVIOURAL DISORDERS: A META-ANALYSIS.

## IECHYD MEDDWL

HEB HELP EFFEITHLON, BYDD 1 YM MHOB 3 O BLANT GYDAG ANAWSTERAU LLEFERYDD, IAITH A CHYFATHREBU ANGEN TRINIAETH AR GYFER PROBLEMAU IECHYD MEDDWL

CLEGG, J., HOLLIS, C., MAWHOOD, L. A RUTTER, M. (2005), DEVELOPMENTAL LANGUAGE DISORDERS - A FOLLOW-UP IN LATER ADULT LIFE. COGNITIVE, LANGUAGE AND PSYCHOSOCIAL OUTCOMES. JOURNAL OF CHILD PSYCHOLOGY AND PSYCHIATRY, 46, 128-149.

## CYFLOGAETH

88%

MAE GAN 88% O BOBL IFANC DDIWAITH SGILIAU LLEFERYDD, IAITH, A CHYFATHREBU GWAEL

ELLIOTT N (2011) AN INVESTIGATION INTO THE COMMUNICATION SKILLS OF LONG-TERM UNEMPLOYED MEN. PRIFYSGOL DE CYMRU

## CYFIAWNDER IEUENCTID

HYD AT 60%

MAE SGILIAU LLEFERYDD, IAITH A CHYFATHREBU GWAEL GAN HYD AT 60% O BOBL IFANC YN Y STAD CYFIAWNDER IEUENCTID


BRYAN K, FREER J, FURLONG C. LANGUAGE AND COMMUNICATION DIFFICULTIES IN JUVENILE OFFENDERS. INTERNATIONAL JOURNAL OF LANGUAGE AND COMMUNICATION DIFFICULTIES 2007; 42, 505-520.

# Cyflwyniad

Effeithir ar ddatblygiad plant gan nifer o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y gellir eu hesbonio drwy ddefnyddio model bioecolegol Bronfenbrenner (2005) [13] (Ffigur 1.1). Mae'r model yn awgrymu bod plant yn datblygu o ganlyniad i ryngweithiadau rhwng eu teulu, lleoliadau gofal plant a chymunedau.

Bydd y mwyafrif o blant yn datblygu iaith heb fawr ddim anawsterau, ond bydd gan rai plant anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu. Gall yr anghenion hyn amrywio a gallant gynnwys y diffiniadau canlynol:

- **Siaradwyr Hwyr':** plant 18 mis i 35 mis sy'n datblygu iaith fynegiannol yn arafach na'u cyfoedion, heb unrhyw ddiffygion niwrolegol neu synhwyraidd sylfaenol[14].
- **'Ymddangosiad Hwyr Iaith':** Plant sy'n datblygu sgiliau iaith oddefol a mynegiannol yn hwyr. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn sy'n siaradwr hwyr neu y mae iaith yn ymddangos yn hwyr yn mynd yn ei flaen i gael anawsterau iaith pan fydd yn hŷn gan fod rhai plant yn mynd yn eu blaen i ddilyn patrwm datblygiad 'arferol' erbyn 4 oed[15].
- **'Anhwylder Datblygu Iaith':** plant sydd ag anawsterau iaith sy'n annhebygol o gael eu datrys erbyn 5 oed ac sy'n creu rhwystrau i gyfathrebu neu ddysgu mewn bywyd pob dydd. Nid yw'r anawsterau iaith hyn yn gysylltiedig â chyflyrau biofeddygol hysbys[16].
- **'Anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu':** term cyffredinol sy'n cynnwys pob plentyn sydd ag anawsterau cyfathrebu, gan gynnwys anhwylder datblygu iaith, ymddangosiad hwyr iaith ac anhwylderau sy'n ymwneud â seiniau lleferydd[17].




Ffigur 1.1 Model bioecolegol addasedig Bronfenbrenner

13 Bronfenbrenner, 2005
14 Hawa a Spanoudis, 2013
15 Reilly *et al*, 2014
16 Bishop *et al*, 2017
17 Bishop *et al*, 2016


## Nifer yr achosion o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, a'u cyffredinrwydd.

Mae ICAN yn cynnig bod gan hyd at 50% o blant anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu wrth ddechrau yn yr ysgol mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig (y DU)[18]. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant hyn anghenion iaith 'byrhoedlog' megis siaradwyr hwyr neu ymddangosiad hwyr iaith, h.y. os rhoddir cymorth priodol, mae'n debygol iawn y byddant yn dal i fyny gyda'u cyfoedion. Fodd bynnag, bydd gan 10% o blant anghenion iaith 'parhaus' ac mae'n fwy tebygol y bydd angen iddynt gael eu hatgyfeirio at wasanaethau arbenigol er mwyn cael cymorth i'w galluogi i gyflawni eu potensial. (Ffigur 1.2)[19]. Cyfyngedig fu'r ymchwil i nifer y plant sydd ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y DU, h.y. nifer yr achosion newydd sy'n codi mewn poblogaeth dros gyfnod penodol. Yn 2004, cafodd rhwng 85,000 a 90,000 o blant (14.6% o enedigaethau) eu hatgyfeirio at wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd yn y DU. Canfu Law et al (2013) nad yw dau o bob tri o blant ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn cael eu cyflwyno i gael cymorth, sy'n awgrymu y gall nifer yr achosion fod dipyn yn uwch na'r ffigur hwn mewn gwirionedd[20].

Cyfyngedig yw'r data cyfredol yng Nghymru ar gyffredinrwydd anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, ond canfu cyfrifiad ysgolion 2020 fod 63,422 o blant 0 i 11 oed yng Nghymru wedi cael darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), sef 20% o holl blant Cymru. Yn ôl y cyfrifiad, cofnodwyd bod 31.4% o blant ag AAA yn cael anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu.

## Effaith hirdymor anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu

Mae effaith hirdymor anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn ddwys. Mae sgiliau geirfa gwael wrth ddechrau yn yr ysgol yn gysylltiedig â lefelau llythrennedd gwaeth ymhlith oedolion 35 oed[21] ac mae'r unigolion hyn ddwywaith mor debygol o fod yn ddi-waith yn oedolion. Gall anawsterau cyfathrebu yn y gweithle effeithio ar ymarfer effeithiol. Amcangyfrifir y bydd cynhyrchiant gwerth £8.4 biliwn y flwyddyn yn cael ei golli oherwydd cyfathrebu gwael erbyn diwedd 2020[22]. Mae unigolion ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu hefyd yn wynebu mwy o risg o anawsterau iechyd meddwl, troseddu a dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, gyda thros 60% o droseddwyr ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu[23].




Ffigur 1.2. Cyffredinrwydd anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu mewn plant [19]

18 ICAN, 2009
19 Beard, 2018
20 Broomfield a Dodd, 2004
21 Law *et al,* 2017
22 Bercow, 2018
23 Law *et al,* 2017

## Ffactorau risg ar gyfer anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu

Nid oes ffactor risg unigol sy'n rhagfynegi datblygiad iaith plant cyn ysgol ond mae amrywiaeth o ffactorau a allai ddylanwadu ar y datblygiad hwn o bosibl, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Gall ffactorau risg unigol a theuluol gynnwys cynamseroldeb; anawsterau clyw parhaus megis clust ludiog; anghenion dysgu ychwanegol (ADY); hanes teuluol o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu[24].

Gall ffactorau risg sy'n gysylltiedig â rhieni a'r amgylchedd gynnwys statws economaidd-gymdeithasol ac amlygiad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Canfu Astudiaeth Carfan y Mileniwm fod perfformiad plant 11 oed o aelwydydd incwm isel gryn dipyn yn is yn ôl mesurau datblygiad iaith na pherfformiad plant o aelwydydd incwm uwch. Roedd bron hanner (46%) y plant o aelwydydd incwm isel yn y chwartel isaf, o gymharu â 24% o blant o aelwydydd incwm uwch[25].

Cafwyd bod ffactorau ataliol yn cynnwys rhianta ymatebol, cyfleoedd i ddarllen llyfr bob dydd a gofal plant o safon[26].

## Dwyieithrwydd[27]

Mae poblogaeth Cymru yn cynnwys amrywiaeth eang o ddiwylliannau ac ieithoedd.  Yn 2020, roedd iaith gyntaf 7.7% o ddisgyblion 11 oed ac iau yn iaith heblaw am Gymraeg neu Saesneg a chofnodwyd dros 100 o ieithoedd gwahanol.

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn nodi nad yw dwyieithrwydd yn achosi anhwylderau cyfathrebu ac y gall arwain at fanteision gwybyddol, cymdeithasol ac economaidd o bosibl[28].

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu wedi'i gynllunio i gefnogi plant a theuluoedd yn iaith y cartref (nad Cymraeg na Saesneg ydyw o bosibl) er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gynhwysol.



24 Harrison a McLeod, 2010
25 Achub y Plant, 2017
26 Roulstone *et al* 2011
27 Gweler y rhestr termau am ddiffiniadau o ddwyieithrwydd/amlieithrwydd
28 Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, 2014

# Y Cyd-destun Strategol

'Siarad gyda Fi' yw cynllun cyflawni trawsbolisi dwy flynedd Llywodraeth Cymru i wella iaith, lleferydd a chyfathrebu i blant 0 i 4 blwydd 11 mis oed. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth bod iaith, lleferydd a chyfathrebu yn 'fater i bawb', gyda theuluoedd, lleoliadau gofal plant a chymunedau yn chwarae rôl bwysig i gefnogi datblygiad plant.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn rhan o gyd-destun o amrywiaeth eang o strategaethau trawsbynciol a darnau o ddeddfwriaeth. Crynhoir rhai enghreifftiau isod:

### Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn [29]

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant mewn cyfraith ddomestig pan gyflwynwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y Mesur).

Mae Adran 1 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth briodol i CCUHP a'r protocolau dewisol wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau rydym wedi'u rhoi ar waith, neu'n bwriadu eu rhoi ar waith, i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i hawliau plant.

Yn unol â'r egwyddorion hyn, prif nod y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yw sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i gyflawni ei botensial, ni waeth beth fo'i gefndir na'i amgylchiadau.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[30]

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r angen am ffocws hirdymor, a phum 'ffordd o weithio' i lywio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni dros bobl. Bydd y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn sicrhau ei fod yn dilyn yr egwyddorion yn y Ddeddf megis meddwl am yr hirdymor, gweithio gyda chymunedau a chyda'n gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig.

### Ffyniant i Bawb[31]

Nododd strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru fod y blynyddoedd cynnar yn un o bum maes â blaenoriaeth a allai wneud y cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant a llesiant yn yr hirdymor.

### Cymru Iachach[32]

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae'r cynllun yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles, ac ar atal. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae 'Cymru Iachach' wedi'i lunio ar sail y 'Nod Pedwarplyg', sy'n disgrifio pedair thema sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth a rennir o'r ffordd y dylai'r system gyfan ddatblygu a sut y caiff newid ei flaenoriaethu (Ffigur 1.3). Bydd yr amcanion yn y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn cyd-fynd â'r Nod Pedwarplyg, gyda ffocws ar drawsnewid gwasanaethau iaith a chyfathrebu drwy brosesau cynllunio a gweithredu system gyfan.


### Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd: Edrych ymlaen gyda'n gilydd (2020)[33]

Mae'r weledigaeth a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach' yn cyd-fynd â gwerthoedd, arbenigedd ac ymyriadau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd cofrestredig a'u staff cymorth medrus. Mae'r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn defnyddio'r Nod Pedwarplyg i ddisgrifio'r newidiadau sydd eu hangen yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn er mwyn llywio Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n gweithio mewn partneriaeth â dinasyddion i fyw bywydau hwy, iachach a hapusach.

### Gofal Iechyd Darbodus[34]

Mae'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd drwy'r cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn cefnogi egwyddorion gofal iechyd darbodus gyda'i ffocws ar ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

29 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
30 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
31 Ffyniant i Bawb, 2017
32 Cymru Iachach, 2019
33 Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd: Edrych ymlaen gyda'n gilydd, 2020
34 Gofal Iechyd Darbodus, 2016




Ffigur 1.3. Nod Pedwarplyg, Cymru Iachach, 2019

### Fframwaith Strategol Iechyd y Cyhoedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd y DU (2019[35])

Ymhelaethir ar y nodau a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach' a 'Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru' yn Fframwaith Strategol Iechyd y Cyhoedd y Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Mae perthynas agos rhwng pob un o'r amcanion yn y cynllun cyflawni a'r model a ddisgrifir yn y fframwaith hwn (Ffigur 1.4).

### Cymraeg 2050

Ceir cysylltiadau clir a phwysig rhwng iaith, lleferydd a chyfathrebu a'r weledigaeth a amlinellwyd gennym yn Cymraeg 2050[36] – strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae tua chwarter plant Cymru mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd a'r nod yw cynyddu'r nifer hwnnw dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd am drawsnewid y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei addysgu i bob dysgwr er mwyn sicrhau y bydd o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny yn nodi erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol. Felly, mae'n rhaid i'r gwaith o gefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu fod yn hollol gyson â'r nodau hyn. Yn ogystal â chamau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau Cymraeg, bydd agenda Cymraeg 2050 yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu pob agwedd ar y cynllun cyflawni a'i roi ar waith.

35 Fframwaith Strategol Iechyd y Cyhoedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd y DU, 2019
36 Strategaeth y Gymraeg

### Dechrau'n Deg[37] Teuluoedd yn Gyntaf[38]

Dechrau'n Deg yw rhaglen Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru wedi'i thargedu at deuluoedd â phlant o dan 4 oed mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo mwy o weithio amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cydgysylltiedig pan fydd ei angen arnynt drwy roi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, atal a rhoi cymorth i'r teulu cyfan.

Er bod y cynllun cyflawni hwn i holl blant Cymru, mae wedi'i osod yng nghyd-destun y darpariaethau cyfredol yn Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ac felly dylid ei ddarllen ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, yn benodol 'Dechrau'n Deg – Atodiad: Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu[39].


### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[40]

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) ac mae'n cwmpasu ystod oedran o 0 i 25 oed ond yn cadw ffocws ar y blynyddoedd cynnar. Er bod y cynllun cyflawni hwn yn canolbwyntio ar gryfhau darpariaeth gyffredinol, darpariaeth ar gyfer grwpiau, darpariaeth wedi'i theilwra a darpariaeth arbenigol ym maes iaith, lleferydd a chyfathrebu, bydd gwelliannau yn y meysydd hynny yn golygu y caiff plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) eu nodi'n gynharach ac yn fwy cywir. Bydd camau gweithredu yn y cynllun cyflawni i uwchsgilio'r gweithlu hefyd yn fodd i adnoddau arbenigol gael eu neilltuo ar gyfer plant ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu neu anghenion dysgu ychwanegol parhaus.

### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020[41]

Mae'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn diddymu'r amddiffyniad o gosb resymol o dan y gyfraith gyffredin mewn perthynas â chosb gorfforol plentyn sy'n digwydd yng Nghymru. Mae'r cynllun cyflawni yn cynnwys camau gweithredu i hyrwyddo rhianta cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ac ymddygiad heriol.

**Addaswyd o Fframwaith Strategol Iechyd y Cyhoedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd y DU (2019)**




Ffigur 1.4 Model Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd

37 Dechrau'n Deg
38 Teuluoedd yn Gyntaf
39 Llywodraeth Cymru, 2015
40 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
41 Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru), 2020

# Covid-19

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cyflwyno heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen i blant, teuluoedd a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi. Yn ddiau, mae COVID-19 wedi cael effaith andwyol ar blant a theuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig sy'n wynebu'r amddifadedd mwyaf, lle bu'n rhaid tynnu gwasanaethau yn ôl neu eu hatal dros dro o ganlyniad i'r pandemig. I blant a theuluoedd sy'n byw yn y cymunedau hyn, mae hyn yn golygu eu bod yn debygol o fod o dan anfantais ddwbl o'u cymharu â'r cyfoedion. Mae'r adroddiad Babies in lockdown (2020)[42] yn awgrymu tri chanfyddiad allweddol o'i arolwg.

- Mae COVID-19 wedi effeithio ar rieni, babanod a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi mewn ffyrdd amrywiol.
- Y teuluoedd sydd eisoes yn wynebu risg o ganlyniadau gwaeth sydd wedi dioddef fwyaf.
- Bydd y pandemig yn taflu cysgod hir.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau brys i wasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg er mwyn cefnogi'r broses o gynnal y rhaglenni hyn yn briodol yn ystod cyfnod pandemig COVID-19. Pwysleisiodd y canllawiau yr angen i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd a oedd yn gyson â'r cyngor gwyddonol arbenigol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ymaddasodd gwasanaethau yn gyflym i roi cymorth yn ystod y cyfyngiadau drwy fabwysiadu technolegau digidol a rhithwir sydd wedi galluogi teuluoedd i gael cymorth drwy ddulliau o bell. Fodd bynnag, mae pryder cynyddol ynghylch teuluoedd na allant gael gafael ar y gwasanaethau hyn oherwydd 'allgáu digidol', h.y. diffyg mynediad at dechnoleg, cysylltedd gwael â'r rhyngrwyd neu ddiffyg sgiliau digidol.

Felly, mae'r cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu wedi cael ei addasu i fod yn gyson ag arferion arloesol cyfredol sy'n cael eu rhoi ar waith a hefyd ystyried goblygiadau'r rhain ar y cymunedau mwyaf difreintiedig ar yr un pryd.

Mae pandemig COVID-19 yn sefyllfa sy'n newid o hyd a chaiff yr holl argymhellion a chamau gweithredu yn y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu eu cymryd yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.



42 Babies in Lockdown: listening to parents to build back better, 2020

# Y ffordd ymlaen yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT) yng Nghymru i godi proffil iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a rhoi mesurau ar waith i chwalu'r rhwystrau sy'n atal plant iau rhag gwneud cynnydd o ran caffael iaith yn gynnar.

Mae RCSLT wedi dweud wrthym fod angen inni edrych o'r newydd ar y ffordd y caiff cymorth ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu ei gynnig a'i ddarparu ledled Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn deg ac yn cyrraedd pob plentyn y gall fod angen cymorth arno.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad plentyn yn y blynyddoedd cynnar Mae hyn yn cynnwys caffael sgiliau iaith a lleferydd a llafaredd sy'n sail i'w gallu i ddysgu darllen, ysgrifennu a datrys problemau. Ceir cysylltiad cryf rhwng y datblygiad hwn a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a'i allu i ymuno â'r gweithlu[43].

Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar unrhyw blentyn, ni waeth ble mae'n byw na beth yw ei amgylchiadau teuluol, i fynd i'r afael ag oedi neu anawsterau o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu. Ein nod yw sicrhau y gall plant ledled Cymru gael gafael ar gymorth o safon uchel, boed yn gymorth cyffredinol, yn gymorth wedi'i deilwra neu'n gymorth arbenigol, yn y blynyddoedd cynnar – os oes angen – i feithrin eu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu.

Er mwyn symud hyn yn ei flaen, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir cymryd y dysgu o'r gwasanaethau therapi iaith a lleferydd o fewn Dechrau'n Deg a darpariaeth gyffredinol a gwreiddio'r arferion da hyn yn ehangach.

Nod y cynllun cyflawni hwn yw ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i feithrin eu sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad ag RCSLT a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar sydd wedi ein helpu i nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Gweinidogion a swyddogion wedi cydweithio ar y cynllun er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar draws y sectorau (gan gynnwys addysg, iechyd a pholisi cymdeithasol) mewn ffordd sy'n ymgysylltu â theuluoedd ac yn adeiladu ar y polisïau sydd eisoes yn bodoli a'r hyn sy'n gweithio.

Cydnabyddir drwy waith ymchwil wedi'i gomisiynu[44] nad oes angen i Gymru ddyfeisio model cyflawni newydd. Yn lle hynny, mae angen gweithredu'n fwy strategol er mwyn cyflawni'r amcanion ledled Cymru.

Caiff y trefniadau llywodraethu rhaglenni angenrheidiol eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob partner yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymrwymiadau yn y cynllun hwn. Rhoddir diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r holl Weinidogion er mwyn sicrhau bod y gwaith pwysig hwn yn cael sylw cyson.



43 EIF.ORG.UK
44 Astudiaeth i fapio'r ddarpariaeth addysgol bresennol o gymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu yng Nghymru, ar gyfer dysgwyr 0-25 oed

# Y Broses Ymgynghori

Gwahoddwyd pawb y mae eu gwaith a'u cyfrifoldebau yn effeithio, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar ddatblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu i gyfrannu at yr ymgynghoriad a nodi unrhyw gamau gweithredu pellach y gall fod angen eu cymryd er mwyn codi proffil iaith, lleferydd a chyfathrebu ymhellach. Anogwyd pob rhanddeiliad allweddol (addysg, iechyd, polisi cymdeithasol ac ati) i gydweithio er mwyn cytuno ar yr amcanion.

Ymgynghorwyd[45] ar y cynllun cyflawni drwy ddau ddull 1: Dau weithdy rhanbarthol i randdeiliaid yn Llandudno ac Abertawe yn ystod mis Mawrth 2020; 2: Ymgynghoriad ar-lein rhwng 30 Ionawr 2020 a 23 Ebrill 2020.

Cafwyd 158 o ymatebion i gyd: 107 gan unigolion a gymerodd ran yn y gweithdai i randdeiliaid a 51 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein.

Drwy ddadansoddi'r ymatebion hyn, bu modd addasu a datblygu'r cynllun cyflawni gyda ffocws ar gamau gweithredu ac ymrwymiadau y bydd angen i bob partner allweddol eu cyflawni er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn cael cymorth priodol i wireddu eu potensial.




45 Pobl a Gwaith – Adroddiad crynodeb o'r ymgynghoriad

# Y cynllun cyflawni

Mae'r cynllun cyflawni hwn wedi'i seilio ar Gofal Iechyd Darbodus[46] ac mae'n dilyn model haenog er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir gan y person cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir[47]. Drwy integreiddio Therapyddion Iaith a Lleferydd mewn timau ar lefel darpariaeth gyffredinol, darpariaeth ar gyfer grwpiau a darpariaeth wedi'i theilwra[48] mae'n bosibl rhoi ymateb graddedig i lefel yr angen a lleihau'r risg o alw ar wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd arbenigol na fyddai modd ei reoli.

### Nodau'r cynllun

- Cefnogi plant a theuluoedd ar lefel darpariaeth gyffredinol, darpariaeth ar gyfer grwpiau a darpariaeth wedi'i theilwra [49] a thrwy hynny leihau'r galw ar wasanaethau arbenigol a hefyd atgyfeirio plant y mae angen hyn arnynt ar adegau priodol.
- Sicrhau bod nodi a chefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu plant yn 'fater i bawb'.

### Beth yw amserlen y cynllun?

- Bwriedir i'r cynllun redeg tan fis Mawrth 2022


### I bwy mae'r cynllun?

- Teuluoedd â phlant sy'n 0 i 4 blwydd 11 mis oed
- Pob plentyn, ni waeth ble mae'n byw (nid dim ond ardaloedd Dechrau'n Deg)
- Pob un o aelodau'r gweithlu sydd â phlant 0 i 4 blwydd 11 mis oed a'u teuluoedd.

### I bwy NAD yw'r cynllun wedi'i fwriadu?

- Plant dros 4 blwydd 11 mis oed
- Plant sydd ag ADY megis colli eu clyw neu eu golwg, anableddau neu anhwylderau ar y sbectrwm awtistig Caiff y plant hyn eu cefnogi o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg
- Plant sydd ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu parhaus megis anhwylder datblygu iaith neu atal dweud sydd eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau arbenigol perthnasol

Fodd bynnag, bydd llawer ô'r amcanion, y camau gweithredu a'r canlyniadau o fudd i'r grwpiau hyn o blant.




Ffigur 1.5 Model darparu haenog

46 Gofal Iechyd Darbodus, 2016
47 Law *et al*, 2013
48 Gweler y Rhestr Termau am ddiffiniadau
49 Gweler y Rhestr Termau am ddiffiniadau

## Pum amcan allweddol:

Mae'r cynllun cyflawni yn cynnwys pum amcan, y mae gan bob un ohonynt ganlyniad cyffredinol a fwriedir, fel a ganlyn:

**Amcan 1: Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd: sut y byddwn yn cyrraedd rhieni a gofalwyr â'n negeseuon allweddol am bwysigrwydd siarad â babanod a phlant bach, ymgysylltu â nhw a chwarae gyda nhw.**

**Amcan 2:** Gwella'r broses o adnabod anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu mewn plant 0 i 4 blwydd 11 mis oed: sut y byddwn yn safoni'r broses asesu ac yn nodi problemau o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu yn gynnar.

**Amcan 3:** Rhoi ymyriadau ar waith ar sail tystiolaeth: sicrhau bod ymyriadau amserol ar sail tystiolaeth yn cael eu rhoi ar waith i blant ag anghenion a nodwyd.

**Amcan 4: Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu: sut y byddwn yn sicrhau bod y gweithlu gofal plant yn hynod hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant a theuluoedd lle y nodwyd anghenion o ran datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu.**

**Amcan 5:** Gwreiddio iaith, lleferydd a chyfathrebu ym mholisïau Llywodraeth Cymru: sut y byddwn yn adolygu ein polisïau a'n strategaethau er mwyn sicrhau eu bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.

## Amcan 1: Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

Mae helpu rhieni i feithrin amgylchedd yn y cartref sydd â 'chyfathrebu cyfoethog' yn hollbwysig i gefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu cynnar plant. Nododd y Prosiect Darparu Addysg Cyn Ysgol Effeithiol, 'For all children, the quality of the home learning environment is more important for intellectual and social development than parental occupation, education or income'[50]

Caiff ymgyrch genedlaethol ei datblygu er mwyn sicrhau y defnyddir brand cyson ledled Cymru. Bydd yr ymgyrch yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys dulliau digidol a mwy traddodiadol megis posteri a thaflenni. Bydd y delweddau a ddefnyddir yn gynhwysol ac yn ddwyieithog gyda ffocws ar hygyrchedd i bawb. Bydd yr adnoddau'n seiliedig ar dystiolaeth a chânt eu cydgynhyrchu â gweithwyr proffesiynol Iechyd y Cyhoedd, Therapyddion Iaith a Lleferydd, Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a theuluoedd. Caiff pecyn hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ei ddatblygu a fydd yn canolbwyntio ar ddull 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' er mwyn eu helpu nhw i helpu rhieni i wneud newidiadau cadarnhaol yn ystod eu rhyngweithio presennol[51].

Bydd yr ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth o batrymau datblygiad arferol, gyda ffocws ar gamau yn hytrach nag oedran, pryd y dylid pryderu a beth i'w wneud os oes pryder, gan ddefnyddio ymateb graddedig i gefnogi gwasanaethau ar lefel darpariaeth gyffredinol, darpariaeth ar gyfer grwpiau a darpariaeth wedi'i theilwra.



50 Sylva *et al*, 2004
51 MECC, 2020

## Amcan 2: Gwella'r ffordd y caiff anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu eu nodi mewn plant

Mae'r broses o sgrinio sgiliau iaith plant er mwyn adnabod y rhai ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu wedi cael ei thrafod yn helaeth. Daeth adolygiad llenyddiaeth systematig i'r casgliad bod tystiolaeth annigonol i argymell prawf sgrinio untro ar lefel y boblogaeth gyfan, gan nad yw'n effeithlon yn ariannol nac yn angenrheidiol[52]. Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu bod sgrinio ar gyfer oedi wrth ddatblygu iaith yn annigonol, gan nad yw siarad yn hwyr yn ddangosydd dibynnol o anawsterau iaith parhaus[53]. Fodd bynnag, efallai y bydd asesu poblogaethau 'agored i niwed' fel rhan o raglen sgrinio haenog neu systematig yn ffordd fwy costeffeithiol o nodi ffactorau risg, y gall yr ymyriad yna ganolbwyntio arnynt[54].

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddulliau o adnabod plant sy'n debygol o fod ag anghenion iaith parhaus mewn ffordd ddibynadwy[55]. Ar ôl dau adolygiad llenyddiaeth systematig, ni welwyd unrhyw restr safonedig o ffactorau risg ar gyfer anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu sydd ar gael i weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd er gwaethaf cwmpas eang astudiaethau[56]. Mae Early Years[57] WellComm yn adnodd sgrinio cyhoeddedig a gwblheir gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar drwy ddefnyddio cyfuniad o arsylwi, asesu uniongyrchol ac adroddiad gan riant neu ofalwr. Mae'n un o'r adnoddau a argymhellir ar hyn o bryd yng nghanllawiau Dechrau'n Deg ar iaith, lleferydd a chyfathrebu er mwyn nodi anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu mewn plant cyn ysgol[58] ac fe'i defnyddir yn eang mewn lleoliadau Dechrau'n Deg.

Bydd y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn adolygu'r dystiolaeth ar gyfer sgrinio ac yn datblygu llwybr clir i nodi plant sydd ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant 0 i 4 blwydd 11 mis oed, gan gynnwys rhieni a gofalwyr, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Ymarferwyr Cyffredinol, Ymwelwyr Iechyd, Pediatregwyr, yn ogystal ag Ymarferwyr Gofal Plant, Gwarchodwyr Plant ac Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar. Bydd y llwybr yn ystyried sut y byddai plant ag anghenion dysgu ychwanegol a theuluoedd dwyieithog yn cael eu nodi.

## Amcan 3: Rhoi ymyriadau ar waith ar sail tystiolaeth

Mae angen gwasanaeth hygyrch a phriodol ar blant a theuluoedd i'w cefnogi, ar gyfer yr holl ystod oedran a sbectrwm angen. Mae adroddiad Bercow (2008) yn nodi bod hyn yn gofyn am gontinwwm eang ac amrywiol o wasanaethau cyffredinol, gwasanaethau ar gyfer grwpiau, gwasanaethau wedi'u teilwra a gwasanaethau arbenigol, a ddarperir gan weithlu sy'n meddu ar sgiliau priodol ac sy'n cael eu cefnogi[59].

Nod y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yw datblygu llwybr clir, graddedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o nodi, i ymyrryd, i bontio i wasanaethau arbenigol. Mae'r cynllun cyflawni wedi'i gynllunio i gael ei integreiddio â Llwybr Iaith Gynnar Cymru Gyfan ar gyfer gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd arbenigol ond nid yw wedi'i gynllunio i ddyblygu gwasanaethau a gynigir ar lefel arbenigol.

## Amcan 4: Uwchsgilio'r gweithlu

Noda adroddiad y Gronfa Waddol Addysg, 'all professionals need to be aware of how to identify early language delays and confident about what they can do to enhance language skills'[60]. Mae ei phecyn cymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn dangos bod defnyddio dulliau cyfathrebu ac iaith mewn addysg blynyddoedd cynnar yn arwain at effaith fawr am gost isel iawn[61].

Mae gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn amrywiol ac mae'n cynnwys ymarferwyr ym meysydd iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Nod y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yw datblygu llwybr hyfforddiant sy'n galluogi ymarferwyr i nodi eu hanghenion hyfforddiant personol a grymuso staff i gael hyfforddiant er mwyn hyrwyddo sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu a nodi'r rhai y mae angen ymyriad arnynt ar gam cynnar.

## Amcan 5: Gwreiddio iaith, lleferydd a chyfathrebu ym mholisïau Llywodraeth Cymru

Cydnabyddir nad yw sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu yn datblygu ar eu pennau eu hunain a'u bod yn elfen allweddol o iechyd, addysg a llesiant drwy gydol oes. Er enghraifft, mae'r cynllun cyflawni yn ymgorffori pwyntiau gweithredu ar gyfer cydweithio rhwng y gweithlu iaith, lleferydd a chyfathrebu a'r rhai sy'n datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Dylai'r dull trawsbolisi a fabwysiedir yn y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu arwain at ymgysylltu â theuluoedd mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, gan adeiladu ar y polisïau presennol a ddylai, yn eu tro, arwain at sicrhau newid a sbarduno gwelliannau mewn iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a drwy gydol oes.

52 Law *et al*, 1998
53 Reilly *et al*, 2014
54 Pickstone, 2006
55 Law *el al*, 2017
56 Gurgel et al, 2014; Wallace et al 2015
57 Hurd a McQueen, 2010
58 Llywodraeth Cymru, 2015
59 Bercow, 2008
60 Law *et al*, 2013
61 EEF, 2018

## Amcan 1: Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

**Canlyniad 1:** Bydd rhieni a gofalwyr yn fwy gwybodus a chymwys i ddeall pwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu i'w plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar er mwyn iddynt allu cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog ei iaith i'w plant yn y cartref.

**Cam Gweithredu Allweddol 1:** 1. Hyrwyddo negeseuon allweddol ymhlith rhieni a gofalwyr am bwysigrwydd siarad â phlant, ymgysylltu â nhw a chwarae gyda nhw yn y blynyddoedd cynnar rhwng 0 a 4 blwydd 11 mis er mwyn cefnogi eu datblygiad iaith.

| Gweithgaredd | Llinell amser | Arweinydd Cyflawni |
|---|---|---|
| 1.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd ddwyieithog genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o batrymau datblygiad arferol a strategaethau i hyrwyddo iaith, lleferydd a chyfathrebu. | Tachwedd 2020 i 2021 | Llywodraeth Cymru: yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 1.2 Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn datblygu ac yn treialu fersiwn ffisegol a digidol o'r negeseuon allweddol ynghylch iaith, lleferydd a chyfathrebu a gydgynhyrchwyd. | Mai 2020 i Ionawr 2021 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 1.3 Bydd y BBC yn cyflwyno ei rhaglen flaenllaw Tiny Happy People www.bbc.co.uk/tiny-happy-people dros gyfnod o 5 mlynedd. Nodwyd nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru a fydd yn gweithio gyda'r BBC yn y cam nesaf o ddatblygu eu hybiau lleol iawn. Caiff rhagor o adnoddau eu comisiynu gan y BBC er mwyn adlewyrchu cyd-destun Cymru. | Lansio swyddogol Gorffennaf 2020 | BBC |
| 1.4 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n llunio cyfres o adnoddau gwybodaeth i rieni gyda'r bwriad o ddisodli Naw Mis a Mwy. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd ymwybyddiaeth o iaith, lleferydd a chyfathrebu yn rhan o'r adnoddau newydd. | Adolygiad Rhagfyr 2020 | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 1.5 Lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot 'Bwndel Babi' yn BIP Bae Abertawe ym mis Medi 2020 sy'n rhoi bwndel o adnoddau i rieni newydd. Mae'r cynllun peilot yn cael ei werthuso ac os bydd penderfyniad i'w gyflwyno ymhellach, byddwn yn sicrhau bod ymwybyddiaeth o iaith, lleferydd a chyfathrebu yn rhan o'r adnoddau. | Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 1.6 Bydd Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Therapyddion Iaith a Lleferydd yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau y caiff dull o ymdrin ag iaith, lleferydd a chyfathrebu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ei ystyried yn ei menter '1000 Diwrnod Cyntaf' | Mawrth 2022 | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 1.7 Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn cynnwys ffocws penodol ar iaith, lleferydd a chyfathrebu yn yr adolygiad iechyd y teulu a gynhelir gan ymwelydd iechyd ar ôl 15 mis. Fel rhan o'r cynlluniau arfaethedig i ehangu Rhaglen Plant Iach Cymru, caiff cyfleoedd i ymgorffori iaith, lleferydd a chyfathrebu eu hystyried. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Iechyd y Boblogaeth |

| Amcan 1: Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd | | |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Llinell amser** | **Arweinydd Cyflawni** |
| 1.8 Er bod negeseuon Cymraeg i Blant am ddatblygiad iaith Gymraeg yn cael eu rhannu â rhieni a darpar rieni drwy nifer o ddulliau, rydym yn cydnabod bod cyfle i ddatblygu'r negeseuon hyn a'u teilwra i anghenion gwahanol gynulleidfaoedd. Byddwn yn ystyried sut y gellir atgyfnerthu'r negeseuon hyn dros y flwyddyn nesaf er mwyn i deuluoedd ddeall eu rôl wrth ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg eu plentyn, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael iddynt. | Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020-21 (Mawrth 2021) | Llywodraeth Cymru: Y Gymraeg |
| 1.9 Bydd ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo Llywodraeth Cymru yn cynnwys iaith, lleferydd a chyfathrebu yn ei dull cyfathrebu cyffredinol ac yn helpu i ledaenu negeseuon allweddol. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 1.10 Parhau i gynnal ymgyrch Mae 'na Amser i Siarad, Gwrando a Chwarae sy'n annog rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i dreulio amser yn siarad â'u plant, yn chwarae gyda nhw ac yn gwrando arnynt er mwyn eu helpu i ddatblygu iaith a meithrin sgiliau cyfathrebu (yn targedu plant 3-7 oed). | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru : Addysg |
| Caiff pob canlyniad o dan yr amcan hwn ei fesur yn ôl llinell sylfaen a newid a chaiff yr effaith ei monitro a'i gwerthuso. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru : Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |



## Amcan 2: Gwella'r ffordd y caiff anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu mewn plant 0 i 4 blwydd 11 mis oed eu nodi

**Canlyniad 2:** Byddwn yn nodi arwyddion cynnar o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu drwy safoni'r broses nodi i blant 0 i 4 blwydd 11 mis oed. Bydd hyn yn sicrhau y caiff plant eu cyfeirio at y person cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.

**Cam Gweithredu Allweddol 2:** Sicrhau bod sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu plant yn cael eu monitro ar yr adeg gywir, drwy ddefnyddio'r adnoddau mwyaf effeithiol.

| Gweithgaredd | Llinell amser | Arweinydd Cyflawni |
|---|---|---|
| 2.1 Bydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, yn adolygu adnoddau sgrinio iaith gynnar, gan gynnwys WellComm, yn ogystal ag adolygu'r dystiolaeth ynglŷn â sgrinio o fewn poblogaethau gwahanol. | O fis Ebrill 2020 | Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar |
| 2.2 Er mwyn sicrhau cysondeb wrth nodi anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu plant, yn dilyn yr adolygiad o WellComm, ymgynghorir ynghylch unrhyw benderfyniad i barhau i ddefnyddio WellComm neu gyflwyno adnodd sgrinio newydd gyda'r nod o ddatblygu dull cyson o weithredu ledled Cymru. | Ar ôl adolygiad yn 2.1 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 2.3 Bydd Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Therapyddion Iaith a Lleferydd Amlieithrwydd, ar y cyd â Phrifysgol Met Caerdydd a Phrifysgol Bangor, yn sicrhau bod fersiwn ddwyieithog o'r adnodd sgrinio cymeradwy ar gael ledled Cymru | Ar ôl adolygiad yn 2.1 | Llywodraeth Cymru: Y Blynyddoedd Cynnar a'r Gymraeg<br>Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Therapyddion Iaith a Lleferydd Amlieithrwydd |
| Caiff pob canlyniad o dan yr amcan hwn ei fesur yn ôl llinell sylfaen a newid a chaiff yr effaith ei monitro a'i gwerthuso. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |



## Amcan 3: Rhoi Crynodeb o Ymyriadau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu ar sail Tystiolaeth

**Canlyniad 3:** Caiff ymyriadau iaith, lleferydd a chyfathrebu priodol ar sail tystiolaeth eu cynnig pan fo'u hangen er mwyn gwella sgiliau iaith, lleferydd a chyfathrebu a lleihau'r risg y bydd anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu yn effeithio ar ddatblygiad a llesiant plant.

**Cam Gweithredu Allweddol 3:** Sicrhau bod unrhyw ymyriadau yn cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol.

| Gweithgaredd | Llinell amser | Arweinydd Cyflawni |
|---|---|---|
| **3.1 Darpariaeth Gyffredinol / Darpariaeth ar gyfer Grwpiau:** | | |
| 3.1a Crynhoi'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ymyriadau sy'n egluro'r cysylltiadau rhwng iaith, lleferydd a chyfathrebu, iechyd meddwl amenedigol ac iechyd meddwl babanod. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 3.1b Crynhoi'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ymyriadau sy'n egluro'r cysylltiadau rhwng iaith, lleferydd a chyfathrebu a rhianta cadarnhaol | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| **3.2 Darpariaeth Wedi'i Theilwra:** | | |
| 3.2a Datblygu adnoddau wedi'u teilwra sy'n ymgorffori strategaethau ar gyfer rhyngweithio rhwng oedolion a phlant a ddatblygwyd o negeseuon cyffredinol Siarad gyda Fi | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 3.2b Crynhoi'r dystiolaeth ar ddulliau wedi'u teilwra o ymdrin ag iaith, lleferydd a chyfathrebu sydd ar gael i ymarferwyr yng Nghymru | O Ionawr 2021: adolygiad Mawrth 2021 | Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar |
| 3.3 Gweithio gydag academwyr i nodi a gwerthuso ymyriadau perthnasol ym maes iaith, lleferydd a chyfathrebu | Hyd at Fawrth 2022 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| Caiff pob canlyniad o dan yr amcan hwn ei fesur yn ôl llinell sylfaen a newid a chaiff yr effaith ei monitro a'i gwerthuso. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |

## Amcan 4: Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu

**Canlyniad 4:** Bydd y gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn hynod hyfforddedig ac yn meddu ar y sgiliau i gefnogi plant a theuluoedd pan fydd anghenion o ran datblygu iaith, lleferydd a chyfathrebu yn cael eu nodi. Bydd hyn yn sicrhau y caiff plant y cymorth priodol gan y bobl sydd agosaf atynt.

**Cam Gweithredu Allweddol 4:** Sicrhau bod y gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn hynod hyfforddedig ac yn llawn cymhelliant fel bod cymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu yn cael ei roi i blant ar yr adeg gywir a bod ymyriadau'n cael eu monitro er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad y plentyn.

| Gweithgaredd | Llinell amser | Arweinydd Cyflawni |
|---|---|---|
| 4.1 Dyluniwyd llwybr iaith, lleferydd a chyfathrebu i ymarferwyr yn y gweithlu gofal plant i fod yn gyson â'r rhaglen trawsnewid ADY a'r Fframwaith Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu. Bwriedir i'r llwybr fod yn adnodd y gall ymarferwyr gofal plant ei ddefnyddio i bennu eu hanghenion hyfforddi eu hunain. Caiff y llwybr ei bennu yng nghyd-destun Cymru a'i gyfieithu i'r Gymraeg i'w roi ar waith ledled Cymru. | Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru :<br>Plant a Phobl Ifanc |
| 4.2 Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Un o gamau gweithredu allweddol y cynllun yw meithrin gallu a galluogrwydd ym mhob rhan o'r sector a chaiff pwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu ei gydnabod fel un o'r elfennau craidd hynny yn sector y blynyddoedd cynnar. Mae cynnwys iaith, lleferydd a chyfathrebu wedi'i gynnwys mewn cymwysterau ar bob lefel. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'r sector ehangach i ddatblygu cymhwyster ymarfer proffesiynol lefel 4 mewn iaith, lleferydd a chyfathrebu fel rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Bydd ar gael o fis Medi 2020. Caiff iaith, lleferydd a chyfathrebu eu hystyried mewn sgyrsiau cenedlaethol am effaith cymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | Mawrth 2021 | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| 4.3 Bydd Arloeswyr y Blynyddoedd Cynnar yn datblygu dull mwy integredig a chydgysylltiedig o weithredu ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant bach a theuluoedd. Bydd hyn yn sicrhau y caiff anghenion datblygiad plant, gan gynnwys anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, eu nodi'n gynnar drwy ymyriadau cynnar gwell a mynediad gwell at wasanaethau. | Erbyn Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru :<br>Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 4.4 Cefnogi gweithlu Rhaglen Plant Iach Cymru i rannu strategaethau er mwyn hyrwyddo datblygiad iaith a nodi anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Iechyd y Boblogaeth |
| 4.5 Cydnabyddir bod angen sgiliau penodol ar ymarferwyr mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd datblygu'r gweithlu yn elfen allweddol o unrhyw gamau pellach i'w cymryd i gryfhau sgiliau ymarferwyr sy'n cefnogi datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu plant mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru:<br>Y Gymraeg |

## Amcan 4: Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu

| Gweithgaredd | Llinell amser | Arweinydd Cyflawni |
|---|---|---|
| 4.6 Bydd arolygwyr Gofal Plant a Chwarae yn cael cynnig hyfforddiant blynyddol/ar-lein ym maes datblygiad iaith cynnar plant, a hwylusir gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd. | Caiff y sesiwn nesaf ei chynnal ym mis Mawrth 2021 | Arolygiaeth Gofal Cymru<br>Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd<br>Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar |
| 4.7 Bydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn hwyluso hyfforddiant ar ddatblygiad iaith cynnar plant i arolygwyr Estyn. | Bydd pecyn hyfforddiant ar gael erbyn Mawrth 2021 | Estyn<br>Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd<br>Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar |
| 4.8 Caiff gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol a Gofalwyr Maeth gynnig hyfforddiant blynyddol/ar-lein ym maes datblygiad iaith cynnar plant, a hwylusir gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd. | I'w roi ar waith yn 2021 i 2022 | Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan<br>Y Rhwydwaith Maethu<br>Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd<br>Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar |
| 4.9 Caiff staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyfieithu yng Nghymru gynnig hyfforddiant blynyddol/ar-lein ym maes datblygiad iaith cynnar plant, a hwylusir gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith. | Bydd pecyn hyfforddiant ar gael erbyn Mawrth 2021 | Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd<br>Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Therapyddion Iaith a Lleferydd Amlieithrwydd |
| 4.10 Mae pecyn hyfforddi ar-lein yn cael ei ddatblygu ar gyfer y gweithlu iaith, lleferydd a chyfathrebu er mwyn eu helpu i fod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a rhoi cyngor ar weithio gyda phobl y mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi effeithio ar eu bywydau. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Plant a Theuluoedd |
| 4.11 Rhannu arferion gorau i therapyddion iaith a lleferydd ac ymarferwyr datblygiad iaith cynnar. | Yn barhaus | Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar |

## Amcan 4: Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu

| Gweithgaredd | Llinell amser | Arweinydd Cyflawni |
|---|---|---|
| 4.12 Sicrhau bod hyfforddiant neu weithdai priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i Therapyddion Iaith a Lleferydd sy'n gweithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar ar lefelau darpariaeth gyffredinol, darpariaeth ar gyfer grwpiau, darpariaeth wedi'i theilwra a darpariaeth arbenigol | Erbyn Mawrth 2021 | Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Iechyd y Cyhoedd yn y Blynyddoedd Cynnar a Grŵp Llwybr Iaith Gynnar Cymru |
| 4.13 Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn eu helpu i ddiogelu a gwella eu hiechyd a'u lles, gan gynnwys datblygiad iaith, lleferydd a chyfathrebu. Caiff y camau gweithredu a geir yn yng nghynllun cyflawni 'Siarad gyda Fi' eu mapio ar fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru, 'Edrych ymlaen gyda'n gilydd'; a Fframwaith Iechyd y Cyhoedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd y DU. Bydd hyn yn helpu i gael eglurder ynghylch y ffocws ar ddarpariaeth gyffredinol, darpariaeth ar gyfer grwpiau a darpariaeth wedi'i theilwra yn y cynllun cyflawni. | Adolygiad Hydref 2020 | Llywodraeth Cymru: Iechyd |
| 4.14 Caiff y camau gweithredu yn y cynllun cyflawni eu hystyried yn erbyn y fframwaith gwerthuso a gaiff ei ddatblygu gan grŵp adsefydlu'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru. Caiff dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau ei ddefnyddio i ystyried sut y cofnodir canlyniadau rhoi pob cam gweithredu yn y cynllun ar waith. | Adolygiad Rhagfyr 2020 | Llywodraeth Cymru: Iechyd |
| Caiff pob canlyniad o dan yr amcan hwn ei fesur yn ôl llinell sylfaen a newid a chaiff yr effaith ei monitro a'i gwerthuso. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru : Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |

## Amcan 5: Gwreiddio iaith, lleferydd a chyfathrebu ym mholisïau Llywodraeth Cymru

**Canlyniad 5:** Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod polisïau a strategaethau perthnasol yn adlewyrchu pwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu o'r blynyddoedd cynnar a thu hwnt. Bydd pob menter polisi yn y dyfodol yn cwmpasu nod i helpu dinasyddion yng Nghymru i fynd i'r afael â phroblemau niweidiol mewn perthynas ag iaith, lleferydd a chyfathrebu, lle y cânt eu nodi. Bydd hyn yn help i ledaenu'r neges bod iaith, lleferydd a chyfathrebu yn 'fater i bawb'.

**Cam Gweithredu Allweddol 5.** Fel arfer safonol, caiff polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, eu bod yn tynnu sylw at bwysigrwydd iaith, lleferydd a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar a thu hwnt.

| Gweithgaredd | Llinell amser | Arweinydd Cyflawni |
|---|---|---|
| 5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dull integredig o weithredu mewn perthynas ag addysg a gofal plentyndod cynnar a fydd yn seiliedig ar egwyddorion allweddol datblygiad plant. Nod y system unigol yw sicrhau cysondeb a chydlyniaeth i blant, darparwyr a rhieni a gofalwyr.<br><br>Mae'r gwaith hwn yn drawsbynciol ac yn cwmpasu darpariaeth a'r gweithlu, ac mae'n gysylltiedig â chamau gweithredu a restrir yn y ddogfen hon, megis galluogi ymarferwyr i gefnogi plant ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ac ymestyn egwyddorion ansawdd ar draws pob lleoliad. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru:<br>Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar |
| 5.2 Mae cefnogi'r gwaith o ddatblygu iaith, lleferydd a chyfathrebu yn hanfodol er mwyn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd Mae disgrifiadau o'r dysgu ar gyfer datblygiad llafaredd cynnar, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol mewn ffordd systematig, wedi cael eu datblygu fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd y Fframwaith Llythrennedd wedi'i fireinio yn cynnwys rhagor o fanylion am wrando a siarad. Bydd canllawiau cyffredin yn helpu lleoliadau ac ysgolion i ddatblygu eu cwricwla ac yn cynnwys gwybodaeth am hygyrchedd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br><br>Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu iaith, lleferydd a chyfathrebu ac yn adlewyrchu tystiolaeth yn y maes hwn, byddwn yn ystyried anghenion plant iau y gallai fod ganddynt anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu cynnar wrth ddatblygu:<br><br>• Trefniadau cyn Cam Cynnydd 1 yn y cwricwlwm newydd;<br>• Canllawiau'r cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir;<br>• Deunyddiau ar gyfer ymarferwyr addysg ar ddatblygiad plant er mwyn helpu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru : Addysg |
| 5.3 Fel rhan o delerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) (o dan Blynyddoedd Cynnar 2. Targedau/Amcanion Strategol):<br><br>Sicrhau bod darparwyr y Cyfnod Sylfaen yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar wrth gynllunio a phennu targedau ar gyfer datblygiad iaith a lleferydd cynnar | Adolygiad Mawrth 2021: Mae Cynlluniau Cymorth PDG yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, gan gynnwys y targedau o ran iaith, lleferydd a chyfathrebu. Bydd diweddariad ar gael yn y cyfnod adrodd nesaf ar ôl i Gynllun Cyflawni Siarad gyda Fi gael ei | Llywodraeth Cymru: Addysg |

| Amcan 5: Gwreiddio iaith, lleferydd a chyfathrebu ym mholisïau Llywodraeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Llinell amser** | **LeaArweinydd Cyflawni** |
| 5.4 Bydd Llywodraeth Cymru drwy Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Lles, sef y rhaglen a pholisi a gaffaelwyd gennym, yn sicrhau bod cymorth i rieni a gofalwyr plant cyn ysgol yn rhan o'n proses gyflawni. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael negeseuon allweddol perthnasol ynglŷn ag iaith, lleferydd a chyfathrebu ac ymyriadau drwy dechnoleg ddigidol. | Mawrth 2022 | Llywodraeth Cymru: Cynhwysiant Digidol |
| 5.5 .Bydd cynllun cyflawni 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn gweithio gyda nifer o Arloeswyr Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru i ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy integredig a systematig er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar gyfer iechyd meddwl, ar yr adeg gywir ac yn ffordd gywir. | Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| 5.6 Mae Cymru'n Gweithio yn darparu gwasanaethau cyngor ac arweiniad ar gyflogadwyedd i unigolion yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth, a ddarperir gan Gyrfa Cymru ac a lansiwyd ym mis Mai 2019, yn cynnig un pwynt mynediad at gymorth cyflogadwyedd priodol pellach, gyda chynghorwyr gyrfaoedd cymwysedig yn sicrhau y caiff unigolion eu cyfeirio at y lle cywir ar yr adeg gywir yn dibynnu ar eu hanghenion.<br><br>Bydd cynghorwyr yn defnyddio asesiad anghenion uwch ar sail cyngor ac arweiniad o amgylchiadau'r unigolyn a'r rhwystrau sy'n ei atal rhag symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, er mwyn gallu atgyfeirio'r unigolyn at y cymorth cywir.<br><br>Mae gan wasanaeth Cymru'n Gweithio gyfoeth o wybodaeth a chysylltiad agos â gwasanaethau cynghori eraill a fydd yn cynnig un lle i gael cymorth cyflogadwyedd ar gyfer Cymru gyfan. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru : Cyflogadwyedd a Sgiliau |
| 5.7 Bwriedir i'r gyfres bresennol o raglenni cyflogadwyedd, hyfforddeiaethau, ReAct, Twf Swyddi Cymru, Mynediad a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd fod ar waith tan fis Mawrth 2021. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r ddarpariaeth hon er mwyn sicrhau y bydd yn ateb y galw ac yn diwallu anghenion yn y dyfodol.<br><br>Bydd Cymorth Swyddi Cymru yn helpu pobl i gael gwaith. Bydd yn ymateb i anghenion unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir i gael gwaith.<br><br>Fel rhan o'r cymorth hwn, caiff pobl eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag cyfranogiad, gan gynnwys sgiliau hanfodol ac anghenion dysgu ychwanegol. | Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Cyflogadwyedd a Sgiliau |

| Amcan 5: Gwreiddio iaith, lleferydd a chyfathrebu ym mholisïau Llywodraeth Cymru | | |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Llinell amser** | **Arweinydd Cyflawni** |
| 5.8 Dysgu ar gyfer Troseddwyr: mae Llywod-raeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth addysg a dysgu a'r llyfrgelloedd carchar yng ngharch-ardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasan-aeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (GCPhEM). GCPhEM sy'n gyfrifol am gomis-iynu'r holl addysg a dysgu a ddarperir yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cyflawni rhagolygon cyflogaeth cynal-iadwy. Mae'r cyllid yn cefnogi hyfforddiant mewn sgiliau hanfodol; mae Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) ar waith yn CEM Caerdydd a CEM Abertawe ar hyn o bryd a chaiff ei roi ar waith fesul cam fel ad-nodd asesu a datblygu i bob carchar yng Nghymru erbyn diwedd 2020. Bydd Llywod-raeth Cymru yn ymgysylltu â GCPhEM i ddat-blygu cwricwlwm newydd i garchardai erbyn haf 2020 ac, fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddir ystyriaeth i gefnogi carcharorion ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu. Mae'r cyllid hefyd yn golygu y gall gwasanaethau llyfrgell mewn carchardai ddarparu adnoddau i dros-eddwyr eu defnyddio er mwyn gwella eu sgil-iau iaith, lleferydd a chyfathrebu ymhellach. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru: Cyflogadwyedd a Sgiliau |

| Amcan 5: Gwreiddio iaith, lleferydd a chyfathrebu ym mholisïau Llywodraeth Cymru | | |
|---|---|---|
| 5.9 Ar 21 Mai 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Glasbrintiau ar gyfer Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid, a oedd ddatblygwyd ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, er mwyn helpu i nodi'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyfiawnder priodol yng Nghymru.<br><br>Mae'r Glasbrintiau yn seiliedig ar yr ymyrraeth gynnar ac atal gan ystyried sut y gallwn ddargyfeirio pobl i ffwrdd o droseddu yn y lle cyntaf, ond pan fydd pobl yn troseddu eu bod yn cael eu cefnogi mewn ffordd gyfannol a'u hadsefydlu.<br><br>**Nod y Glasbrintiau yw:**<br><br>Cyfeirio menywod, lle bo'n briodol, oddi wrth droseddu ac i wasanaethau cymorth cynaliadwy, cymunedol sy'n canolbwyntio ar fenywod, ac archwilio'r opsiynau ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan drawma.<br><br>Alinio gwasanaethau ataliol a gynigir i blant gyda chyd-fodel fframwaith a chydffactorau risg neu drothwyon ymyrraeth i wella canlyniadau ar gyfer plant.<br><br>Datblygu dull effeithiol ar gyfer monitro gweithgarwch atal er mwyn dangos yr effaith a symleiddio'r broses o adrodd i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu<br><br>Yng ngoleuni'r effaith y mae argyfwng Covid-19 wedi'i chael ar yr amserlenni a'r adnoddau ar gyfer cyflawni prosiectau, adolygwyd blaenoriaethau presennol y Glasbrintiau er mwyn nodi a blaenoriaethu meysydd gwaith allweddol yn y tymor byr (hyd at fis Mawrth 2021).<br><br>O dan y Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd, bydd y gweithgarwch yn cynnwys bwrw ymlaen i ddatblygu canolfan breswyl i fenywod, a gyhoeddwyd ar 5 Mai 2020; sefydlu llwybrau atgyfeirio clir ar gyfer menywod bregus yn y gymuned, a datblygu model i sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hystyried wrth ddatblygu gweithgarwch y Glasbrint. | 2024 | Llywodraeth Cymru: Troseddu a Chyfiawnder |
| Ar gyfer y Glasbrint Ieuenctid, argymhellir tri phrif faes fel blaenoriaeth. Mae'n rhain yn cynnwys gwella gweithgarwch atal, yn enwedig o ystyried effaith bosibl yr argyfwng presennol ar iechyd a lles plant; datblygu dull gweithredu sy'n cael e lywio gan drawma a datblygu opsiynau ar yr ystad ddiogel yng Nghymru, sy'n diwallu anghenion plant yn y systemau cyfiawnder, lles ac iechyd.<br><br>Disgwylir i'r rhaglen Glasbrintiau gyffredinol redeg tan 2024. | | |
| 5.10 Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â gwledydd eraill y DU er mwyn dysgu am eu modelau o ddarparu gwasanaethau | Yn barhaus | Llywodraeth Cymru:<br>Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |
| Caiff pob canlyniad o dan yr amcan hwn ei fesur yn ôl llinell sylfaen a newid a chaiff yr effaith ei monitro a'i gwerthuso. | Adolygiad Mawrth 2021 | Llywodraeth Cymru:<br>Yr Is-adran Plant a Theuluoedd |

# Casgliad a'r Camau Nesaf

Bydd buddsoddiad mewn iaith, lleferydd a chyfathrebu drwy'r cynllun cyflawni yn sicrhau bod plant o bob cefndir yng Nghymru yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial. Nod y cynllun cyflawni yw datblygu diwylliant grymuso er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar yn meddu ar y sgiliau i allu hyrwyddo iaith, lleferydd a chyfathrebu a nodi'r rhai y mae angen cymorth arnynt ar gam cynnar.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn rhoi trosolwg o'r pum amcan allweddol a'r camau gweithredu o dan bob un o'r amcanion hyn. Mae cynllun gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu gyda gweithgorau arbenigol ar gyfer pob un o'r amcanion er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac yn amserol. Byddwn yn ceisio tystiolaeth o bob canlyniad drwy fesur pob un o'r camau gweithredu ynddo (e.e. 4.1 Nifer yr ymarferwyr gofal plant yng Nghymru sydd wedi cwblhau fersiwn Cymru o gwrs ar-lein yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu erbyn mis Mawrth 2021). Caiff y cynllun gweithredu ei ddefnyddio i bennu llinell sylfaen ar sail y perfformiad presennol ac yna gyflwyno dull casglu data mwy cadarn i fonitro cynnydd drwy gydol y cynllun cyflawni a thu hwnt. Mae'r gwaith o fonitro canlyniadau yn rhan annatod o'r cynllun er mwyn sicrhau y caiff y newidiadau o ran y plentyn, y teulu a'r amgylchedd eu cofnodi a'u gwerthuso ledled Cymru.

Caiff y cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu ei arwain a'i fonitro gan Fwrdd y Rhaglen a fydd yn rhoi cyngor clir a realistig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac argymhellion i'r Gweinidogion ynglŷn â sut i gyflawni'r uchelgais a'r weledigaeth a nodir yn y cynllun.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu yn nodi ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau iaith, lleferydd a chyfathrebu plant yng Nghymru y bydd yn rhaid i bob rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y blynyddoedd cynnar, gymryd perchenogaeth ohonynt. Mae'r achos dros weithredu yn un cymhellol er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio mewn partneriaeth yn well ac ar gyflymder sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu a'r cynllun gweithredu sy'n cael ei ddatblygu wedi'u cynllunio i ysgogi cryn gynnydd ym maes iaith, lleferydd a chyfathrebu yng Nghymru wrth inni fod yn fwy uchelgeisiol byth ar gyfer datblygiad ein plant yn y dyfodol.

# Rhestr Termau

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):** Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol[62].

**Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:** Mae'n disgrifio amrywiaeth eang o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a all fod yn ddigwyddiadau trawmatig neu rai sy'n achosi straen i blant a phobl ifanc sy'n cael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u lles. Mae'r profiadau yn amrywio o gam-drin geiriol, meddyliol, rhywiol a chorfforol i gael eu magu mewn aelwyd lle ceir trais domestig, camddefnyddio alcohol, rhieni yn ymwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau[63].

**Terminoleg Dwyieithrwydd:**

- **Dwyieithrwydd:** pan fydd plentyn neu oedolyn yn deall neu'n defnyddio dwy iaith neu fwy. Gellir dweud bod rhywun yn ddwyieithog, ni waeth beth fo lefel ei allu yn y naill iaith neu'r llall.
- **Iaith y cartref**: mae'r term hwn yn disgrifio'r iaith y mae plentyn yn ei chlywed yn ei gartref. Mewn llenyddiaeth, defnyddir y termau mamiaith, iaith gyntaf ac iaith 1 hefyd.
- **Iaith ychwanegol:** mae'r term hwn yn disgrifio'r iaith y mae plentyn yn ei chlywed yn ychwanegol at iaith y cartref. Mewn llenyddiaeth, defnyddir y termau ail iaith ac iaith 2 hefyd.

**Anhwylder Datblygu Iaith:** (a elwid yn Nam Iaith Penodol gynt) angen iaith, lleferydd a chyfathrebu parhaus na ellir ei esbonio drwy achos amlwg[64].

**Siaradwr hwyr:** plant rhwng 18 a 35 mis oed sy'n caffael iaith yn arafach na'u cyfoedion sy'n datblygu mewn ffordd arferol. Cyfyngedig yw geirfa fynegiannol neu oddefol y plant hyn. Nid yw'r term hwn yn cynnwys plant sydd ag anawsterau niwrolegol, emosiynol-gymdeithasol, neu synhwyraidd[65].

**Terminoleg Lefelau Darpariaeth:**

- **Darpariaeth gyffredinol:** menter iechyd y cyhoedd sydd ar gael i bawb mewn rhanbarth penodol, gyda'r nod o wella gwybodaeth y cyhoedd am iaith, lleferydd a chyfathrebu e.e. Rhaglen Plant Iach Cymru.
- **Darpariaeth ar gyfer grwpiau ("targedu ar ôl dethol"):** Ymgyrch Iechyd y Cyhoedd sy'n canolbwyntio ar grwpiau penodol yn y boblogaeth, e.e. ystod oedran benodol, grwpiau sy'n wynebu risg benodol. Cynigir cymorth i grŵp y gwyddys ei fod o dan anfantais yn ac wynebu risg bosibl os nad eir i'r afael â'r broblem e.e. Dechrau'n Deg.
- **Darpariaeth wedi'i theilwra (neu "targedu ar ôl nodi"):** Dull gweithredu sydd wedi'i deilwra ar gyfer unigolyn er mwyn lleihau'r risg o gyflwr y gellir ei atal. Bydd hyn yn diwallu anghenion penodol plentyn neu oedolyn y mae angen ymyriad uniongyrchol strwythuredig â mwy o ffocws arno e.e. grwpiau wedi'u teilwra ar gyfer plant ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu a nodwyd.
- **Darpariaeth arbenigol:** Gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd ag anghenion arbenigol sy'n gofyn am lefel uwch o wybodaeth a medrusrwydd i roi diagnosis, ystyried opsiynau triniaeth, cyflwyno ymyriad a monitro cynnydd. Y nod yw lleihau'r nam a gwella llesiant y plentyn neu'r oedolyn e.e. asesiad ffurfiol gan Therapydd Iaith a Lleferydd mewn gwasanaeth 'craidd'[66].

**Anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu:** term cyffredinol i ddisgrifi'r holl ystod o anawsterau cyfathrebu mewn plant, ni waeth beth yw'r tarddiad na'r nodweddion[67].

- **Mae lleferydd** yn cynnwys:
  - **Ynganu:** y gallu i ddweud seiniau. Mae hyn yn ymwneud â symudiadau'r ynganwyr; y dafod, y daflod feddal, y genau, dannedd, gwefusau.
  - **Ffonoleg:** astudiaeth o seiniau lleferydd, eu patrymau a'u dilyniannau a'r rheolau sy'n rheoli cyfuniadau o seiniau i greu geiriau.
- **Mae iaith** yn cynnwys:
  - **Iaith oddefol:** deall iaith lafar (neu ysgrifenedig), sy'n cynnwys deall geirfa a gramadeg
  - **Iaith fynegiannol:** defnyddio geirfa, gramadeg a morffoleg drwy ddefnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau.
  - **Cystrawen a Gramadeg:** y ffordd y mae geiriau yn cael eu rhoi at ei gilydd i ffurfio ymadroddion a brawddegau
  - **Morffoleg:** astudiaeth o strwythur mewnol geiriau. Mae hyn yn cynnwys newidiadau bach i eiriau e.e. y lluosog 'au'
  - **Pragmateg:** astudiaeth o'r defnydd cymdeithasol o iaith. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ryngweithio'n effeithiol, defnyddio'r gair cywir yn y man cywir ac ystyried safbwynt y gwrandawr wrth siarad.
- **Mae cyfathrebu** (anfon a derbyn negeseuon) yn cynnwys:
  - **Cyfathrebu â geiriau:** sy'n golygu cyfathrebu â geiriau llafar
  - **Cyfathrebu dieiriau:** sy'n golygu cyfathrebu heb eiriau. Mae'n cynnwys mynegiant yr wyneb, cyswllt llygaid, ystumiau a goslef llais, yn ogystal â negeseuon llai amlwg fel osgo a phellter gofodol rhwng unigolion. Mae babanod, plant bach a llawer o blant sydd ag anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu yn defnyddio cyfathrebu dieiriau i gyfathrebu.

62 Llywodraeth Cymru, 2020
63 Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020
64 Afasic, 2020
65 Hawa a Spanoudis, 2013
66 Enderby a Law, 2019
67 Bercow, 2008



OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41062

ISBN Digidol: 978-1-80082-477-5